Cofnodion Cyfarfod **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL CEREDIGION** a gynhaliwyd drwy fideogynadledda **ddydd Iau, 16 Rhagfyr 2021**

**PRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a Lynford Thomas

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Parchedig Aled Jones, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Yr Athro John Tudno Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Anna Uruska - Yr Eglwys Gatholig

Aelodau Cyfetholedig:

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd:

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Safonau a Gwasanaethau Democrataidd

(3:30pm- 4:15pm)

**1 Gweddïau**
Cychwynnwyd y cyfarfod â'r Parchedig Aled Jones yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

**2 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd yr Athro Catrin Williams ac Alwen Roberts am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**3 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 18 Mehefin 2021 ac ystyried unrhyw fater yn codi o'r Cofnodion hynny.**
CYTUNWYD cadarnhau fel cofnod cywir Gofnodion y Cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd 18 Mehefin 2021.

**4 Diweddariad ar seddi gwag ar Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Ceredigion**
Rhoddwyd ystyriaeth i gynrychiolwyr i gynrychioli'r Aelodau Cyfetholedig ar y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn cysylltu â nhw yn unol â hynny i weld a oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod yn Aelod o'r Pwyllgor. O ran cynrychiolydd dyneiddiol, cytunwyd y byddid yn ceisio cael cynrychiolydd dwyieithog, lleol.

**5** **Diweddariad ar y canllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Cytunwyd y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu ddydd Mercher 26 Ionawr 2022 am 3.30 pm i ystyried y canllawiau yn fanwl.

**6** **Rhoi canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu cyd-destun**

CYTUNWYD y byddai'r adroddiad a'r dolenni mewn perthynas â'r cwricwlwm, a gyflwynwyd yn y cyfarfod, yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau gan y Swyddog Safonau a Gwasanaethau Democrataidd.

**7** **Adroddiad Blynyddol - CYSAG Ceredigion**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad drafft a gafodd ei gylchredeg i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Yn dilyn mân ddiwygiadau ac unrhyw adborth pellach gan yr Aelodau erbyn y dydd Llun canlynol, CYTUNWYD derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. Byddai'r adroddiad yna'n cael ei gyfieithu a'i anfon i Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.

**Cadarnwyd yng Nghyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Ceredigion a gynhaliwyd 26 Ionawr 2022.**

**Cadeirydd:** ________________________

**Dyddiad**: ___________________________